# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Mehefin 2021

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), J Hughes, Councillor R Jeavons, P Cockeram, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman and M Rahman

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr D Davies

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Cynghorydd Rahman yng nghyswllt Eitem 7.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf dyddiedig 5 Mai fel rhai cywir.

4 **Cynnig Ad-drefnu Ysgolion i Ehangu Ysgol Basaleg**

Cyflwynodd yr Arweinydd y Prif Swyddog Addysg a gyflwynodd yr adroddiad.

Hysbysodd y Prif Swyddog Addysg y Cabinet mai Ysgol Basaleg oedd yr ysgol uwchradd fwyaf poblogaidd yng Nghasnewydd a'i bod yn gwasanaethu dalgylch eang oedd yn dal i dyfu oherwydd datblygiadau tai newydd, adfywio a buddsoddi yn yr ardal leol.

Gwnaed y cynnig yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i hyn, cafwyd cyfnod ymgynghori ffurfiol o chwe wythnos rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2020. Fel y gellid disgwyl, cafwyd llawer iawn o ohebiaeth, sy'n cael ei grybwyll yn Adroddiad yr Ymgynghori, a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor ac a rannwyd gyda rhanddeiliaid ym mis Ionawr eleni.

Yn dilyn ystyried Adroddiad yr Ymgynghori, yr oedd Aelodau'r Cabinet o'r farn y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig,  ac felly cyhoeddwyd hysbysiad statudol ym Mawrth eleni am y cyfnod angenrheidiol o 28 diwrnod. Y cyfnod hwn oedd pryd y gallai rhanddeiliaid nodi gwrthwynebiadau i'r cynnig. Lle nad oedd gwrthwynebiadau, gallai Aelodau'r Cabinet gymryd y penderfyniad terfynol ar y cynnig. Fodd bynnag, petai gwrthwynebiadau, yr oedd y

ddeddfwriaeth yn mynnu y dylai Panel Pennu Lleol ystyried yr holl dystiolaeth oedd ar gael cyn penderfynu. Yn yr achos hwn, derbyniwyd dau wrthwynebiad ffurfiol a dau bryder pellach, ac felly yr oedd gofyn i'r Cabinet, gan weithredu fel y Panel Pennu Lleol, ystyried y penderfyniad terfynol.

Crynhowyd y gwahanol resymau dros wrthwynebu yn yr adroddiad ond cyfeiriwyd atynt hefyd yn fanwl yn yr Adroddiad Gwrthwynebu. Nodwyd fod mwyafrif y rhesymau dros wrthwynebu wedi eu codi hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, a chyfeiriwyd atynt ac ymateb iddynt yn Adroddiad yr Ymgynghori.

Yr oedd y buddsoddiad arfaethedig yn Ysgol Basaleg yn bosib trwy Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor, ac yn cael ei gyllido felly ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, neilltuwyd swm o £28m i'r prosiect, er y nodwyd, gan nad oedd y broses dendro wedi cwblhau, fod y cynllun cost diweddaraf yn awgrymu y byddai angen cyfanswm buddsoddiad o ryw £31m. Yr oedd yn hollol bosib felly y byddai angen adolygu rhaglen Band B yn gyffredinol dros y misoedd nesaf, pan fyddai mwy o sicrwydd am gostau prosiectau penodol.

Byddai'r cynnig a'r buddsoddiad gyda'i gilydd yn gyfle gwych i wella a chynyddu'r ddarpariaeth i ddysgwyr yn un o'n hysgolion uwchradd mwyaf llwyddiannus, a gwneud hyn yn amgylchedd dysgu'r 21ain Ganrif mewn gwirionedd.

Penderfyniad:
Cymeradwyodd y Cabinet y cynnig ad-drefnu ysgolion i "gynyddu'r lle yn gyffredinol yn Ysgol Basaleg o 1747 i 2050 o fis Medi 2023 ymlaen".

5 **Diweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol (Ch4)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, sef cyfoesiad o Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor am ddiwedd Chwarter Pedwar (31 Mawrth 2021).

Gofynnwyd i aelodau ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi'r newidiadau i Risgiau Corfforaethol y Cyngor.

Mae Polisi Rheoli Risg a Chofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor yn galluogi'r weinyddiaeth hon a'i swyddogion i fod yn effeithiol wrth nodi, rheoli a monitro'r risgiau hynny a allai atal y Cyngor rhag cyflawni ei amcanion yn y Cynllun Corfforaethol (2017-22) a chyflawni ei ddyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Byddai'r adroddiad risg Chwarter Tri yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio'r Cyngor ar 27 Mai i adolygu prosesau rheoli risg y Cyngor a'i drefniadau llywodraethiant.

Ar ddiwedd chwarter pedwar, yr oedd gan y Cyngor 46 risg wedi eu cofnodi ar draws wyth maes gwasanaeth y Cyngor.

Cafodd y risgiau hynny a bennwyd fel rhai'r mwyaf arwyddocaol o ran cyflwyno Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i wasanaethau eu codi i Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor er mwyn eu monitro.

Ar ddiwedd chwarter pedwar, cofnodwyd 18 risg ar y Gofrestr Risg Corfforaethol:

- Unarddeg Risg Ddifrifol (15 i 25);
- Pedwar Risg Fawr (7 i 14);
- Dwy Risg Ganolig (4 i 6); ac
- Un Risg Isel (1 i 3).

Yn chwarter pedwar, gwelodd y Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd ddwy sgôr risg yn cynyddu, tair yn gostwng ac 13 yn aros yr un fath ag yn chwarter tri.

Ar hyn o bryd, yr oedd y Cabinet yn cael adroddiadau misol am faterion yn ymwneud â Brexit, a mesurau lliniaru.

Gostyngodd y sgôr risg o 18 i 12, gan nad oedd gwasanaethau'r Cyngor wedi nodi effeithiau uniongyrchol ar eu cyflenwyr a'u cyllid ers y cytundeb masnach.

Fodd bynnag, fel yr adroddir yn adroddiad Brexit, yr oedd Statws Sefydlu yr UE yn dal yn faes pryder i gymunedau'r ddinas oherwydd y terfyn amser o 30 Mehefin.

Yr oedd ansicrwydd am nifer y dinasyddion o'r UE a allasai fod wedi colli'r terfyn amser i wneud cais am y cynllun a/neu a fu'n aflwyddiannus yn eu ceisiadau.

Gallasai hyn gael effaith ar y Cyngor gan y gall trigolion fethu cyrchu gwasanaethau cyhoeddus a bydd angen cefnogaeth ychwanegol.

Gostyngodd risg Rheolaeth Ariannol y flwyddyn o chwech i dri, oherwydd yr alldro'r Cyngor a ragwelwyd am y flwyddyn ariannol a aeth heibio, oedd yn dangos cryn warged.

Byddid yn cadw golwg fanwl ar y risg hon yn chwarteri un a dau i weld a fyddai unrhyw bryderon/pwysau wrth i'r ddinas weld llacio graddol ar y cyfyngiadau.

Gostyngodd sgôr risg pandemig Covid-19 o 25 i 20 oherwydd llwyddiant cyflwyno'r brechiad a llacio cyfyngiadau clo, a'i gwnaeth yn bosib ail-agor gwasanaethau megis cyswllt wyneb yn wyneb.

Parhaodd gwasanaethau rheng-flaen y Cyngor i redeg fel arfer. Er hynny, yr oedd rhai clystyrau yn parhau yn y gymuned, oedd yn cael eu rheoli trwy'r timau Profi, Olrhain ac Amddiffyn.

Mae Grŵp Adfer Covid (Aur) y Cyngor yn dal i gyfarfod yn rheolaidd a monitro'r sefyllfa. Mae adroddiadau misol yn cael eu rhoi i'r Cabinet, sy'n rhoi trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid.

Cynyddodd sgôr risg Stad Eiddo Cyngor o 12 i 16 i adlewyrchu'r problemau diweddar a nodwyd gydag Ysgol Iau St Andrew yn Ch4 2020/21.

Fodd bynnag, yr oedd y risg yn cael ei lliniaru a'i rheoli trwy ddefnyddio'r Rhaglen Gyfalaf Gynnal yn ogystal â monitro rheolaidd.

Mae'r Cyngor, ynghyd â Casnewydd Norse yn parhau i gynnal arolygon cyflwr ar draws gweddill y stad, a defnyddir yr arolygon hyn fel sail o wybodaeth i ddyrannu a blaenoriaethu gwariant cyfalaf.

Mae'r Cyngor yn dal i weithio'n agos gyda meysydd gwasanaeth eraill, gan gynnwys Addysg , i nodi a sicrhau pob ffynhonnell bosib o arian, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i dalu am gynnal a chadw a gwelliannau, yn enwedig nodi ffyrdd o wneud ein stadau yn fwy ynni-effeithlon i helpu i gyrraedd nod yr awdurdod o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Cododd sgôr risg Addysg am leoliadau allsirol o naw i 12 oherwydd y cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc gydag anghenion cymhleth sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

Yr oedd ysgolion arbennig y Cyngor (Maes Ebbw ac Ysgol Bryn Derw) yn llawn, oedd yn cynyddu'r risg o fod angen lleoliadau allsirol.

Trwy gomisiynu darparwyr lleol fel Casnewydd Fyw, Catch 22 a Sporting Chance, gallodd y Cyngor gyrchu darpariaethau arbenigol lleol, oedd yn lleihau'r angen am ddarpariaeth arbenigol allsirol.

Yr oedd dewisiadau megis codi estyniadau hefyd yn cael eu hystyried er mwyn gofalu bod digon o lefydd ar gael i ddisgyblion ag anghenion cymhleth. Comisiynwyd Mastodon C hefyd i greu rhagfynegiadau data ar gyfer yr angen yn y dyfodol am ddarpariaeth arbenigol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Swyddog Addysg am ei chyflwyniad a gwahoddodd gwestiynau gan y Cabinet.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Lleisiodd y Cynghorydd Cockeram bryder am lefel y cyllido oherwydd effaith Covid. Yn ail, yng nghyswllt addysg, cafodd ymddygiad plant oedd yn dychwelyd i'r ysgol ei drafod yn ddiweddar yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Byddid yn cyflwyno bid i Lywodraeth Cymru am gyllid i ddarparu cwnsela, ac i ddeall effeithiau'r pandemig ar blant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mayer at gyhoeddiad diweddar y Prif weinidog am gytundeb gydag Awstralia i fewnforio bwyd, ac anogodd drigolion Casnewydd i brynu'n lleol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rahman at eiddo'r Cyngor, gan adleisio sylwadau'r Arweinydd am Ysgol Iau St Andrew's, a dywedodd wrth y Cabinet fod y risg yn cael ei lliniaru trwy fonitro'r stadau yng Nghasnewydd yn rheolaidd, gan eu hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer gwario cyfalaf. Hefyd, byddai'r stadau hynny yn cael eu gwneud yn fwy ynni-effeithlon i'r trigolion, a byddai hyn yn cynnwys y ganolfan hamdden arfaethedig newydd.

Soniodd y Cynghorydd Jeavons fod y gwaith o gwympo coed oherwydd clefyd marwolaeth yr ynn yn cael ei wneud dan ganllawiau diogelwch i warchod y trigolion, a bod Cyngor Dinas Casnewydd yn ail-blannu dwy goeden am bob un oedd yn cael eu cwympo, a bod y gwaith yn angenrheidiol i atal y clefyd rhag cael ei gludo ar yr awyr.

<u>Penderfyniad:</u>
Nododd y Cabinet gynnwys cyfoesiad chwarter tri y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

6 **Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan hysbysu'r Cabinet fod gofyn i'r cyngor adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd o ran cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Yr oedd yr adroddiad yn ymdrin â phumed blwyddyn ei weithredu, wedi i'r cyngor dderbyn y rhan fwyaf o Safonau'r Iaith Gymraeg ym Mawrth 2016.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o gynnydd y Cyngor o ran cwrdd â Safonau'r Iaith Gymraeg, ac yn cynnwys gwybodaeth y mae'r gyfraith yn mynnu sydd i'w gyhoeddi bob blwyddyn, crynodeb o lwyddiannau allweddol yn ystod y flwyddyn, a meysydd blaenoriaeth am waith at y dyfodol.

Aeth yr Arweinydd drwy lwyddiannau'r flwyddyn, oedd yn cynnwys:

- Gwaith cadarnhaol gan swyddog Hybu'r Gymraeg y cyngor, yn canolbwyntio ar ymwneud a rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned a darparu cefnogaeth i ysgolion a phartneriaid yn ystod y pandemig.
- Hyrwyddo dyddiadau allweddol trwy gydol y flwyddyn, yn fewnol ac ymysg cymunedau, a noddi Gŵyl Newydd rithiol.
- Sefydlu Gweithgor Cynrychiolwyr a chynllun gweithredu sy'n cynnwys canoli ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y sefydliad.
- Sefydlu is-grŵp Iaith Gymraeg y Bwrdd Sgiliau Cywir, sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo agwedd gyson at ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ar draws y ddinas a chyda phartneriaid allweddol y BGC.
- Adolygu fframwaith rheoli perfformiad y cyngor, fel bod modd monitro cydymffurfio â'r safonau yn fwy effeithiol ar lefel maes gwasanaeth a sefydliadol.
- Comisiynu nifer o fideos hyfforddi yn Gymraeg wedi eu hanimeiddio, i'r holl staff ddilyn, fyddai ar gael yr haf hwn.

Yr oedd yr adroddiad hefyd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf, fyddai'n cynnwys:

- Gweithio gyda'n cymunedau ffoaduriaid, mudwyr a lleiafrifoedd ethnig i wreiddio'r Gymraeg yn well fel rhan o hunaniaeth a rennir ledled y ddinas, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu ein pedwaredd ysgol cyfrwng-Cymraeg.
- Gwella a datblygu ein polisi Sgiliau Iaith Gymraeg, gan gynnwys cofnodi a monitro sgiliau'r Gymraeg yn y gweithle, a gwneud gwell defnydd o'r data hwn fel sail i gynllunio strategol.
- Ymwneud ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau fel sail i ddatblygu ein Strategaeth Iaith Gymraeg 5-mlynedd newydd.
- Mabwysiadu nifer o egwyddorion Cymraeg Clir i annog mwy o staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau ac Adnoddau sydd hefyd yn arwain ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg i ddweud gair words.

Yr oedd yr Aelod Cabinet yn falch o weld fod y cyngor yn dal i lwyddo i wneud cynnydd cadarnhaol yn erbyn ein hymrwymiadau i'r Gymraeg, er i'r flwyddyn hon fod yn un heriol. O edrych ymlaen at eleni, yr oedd yr Aelod Cabinet yn hyderus y byddai datblygu ein pedwaredd ysgol gynradd Gymraeg yn parhau i gryfhau gwaith yn y maes hwn ac yn dwyn cyfleoedd newydd yn y ddinas i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein holl gymunedau.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Cynghorydd Hughes, Pencampwr y Gymraeg i siarad, mynegodd ei ddiolch yn Gymraeg a Saesneg:

Hoffwn ddechrau trwy gydnabod yn heriau anhygoel a wynebodd ein staff yn ddiweddar.

Rwyf am ddiolch i'r aelodau mewn timau Heather Powell, Rhys Cornwall a hefyd Deborah Weston ac am yr arweiniad y maen nhw wedi ei ddangos.

Hefyd hoffwn ganmol a diolch i'n holl staff sydd wedi ymuno â chyrsiau amrywiol i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg-yn aml o'r dechrau.

Tra bod llawer o'n gwaith yn y gymuned wedi cael ei ddal yn ôl, rwy'n falch o hysbysu'r Arweinydd ein bod wedi cael cyfarfod cadarnhaol iawn ddoe a gynhaliwyd gan Dafydd Henry o Fenter Iaith Casnewydd gyda thîm dwyieithog Dinas Caerdydd.

Rhai o bethau sydd yn egluro a dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghasnewydd yw'r faith bod y ddinas yn agor ei phedwaredd ysgol cyfrwng Cymraeg a Chylch Meithrin yng Nghaerllion, a hefyd fod Casnewydd yn dathlu Gŵyl Gymraeg - a heddiw mae Aelod y Cabinet a Phencampwr y Gymraeg yn y ddinas yn cyflwyno i'r cabinet yn yr iaith Gymraeg.

Rwy'n ddiolchgar i'r Arweinydd am y cyfle ac am ei hymdrechion ei hun i hyrwyddo'r iaith yng Nghasnewydd.

*I would like to begin by acknowledging the unprecedented challenges our staff have faced of late.*

*I would like to thank especially Heather Powell, Rhys Cornwall and Deborah Weston for their personal efforts and that of their team members who have supported myself and this administration in furthering and promoting the Welsh language within our Council and throughout the city.*

*I would also like to thank all of our staff who have signed up for Welsh language courses this year.*

*While much of our work has been held back this year because of covid restrictions within our communities,  there has been progress for sure.*

*I am happy to report to the Cabinet and the Leader that we had an immensely positive meeting yesterday hosted by Dafydd Henry at Menter Iaith Casnewydd with the Cardiff City Local Authority Billingual Team.*

*Few things have however shown the progress more within our city than the opening of our fourth Welsh language medium ysgol in September in Caerleon and the opening of a Cylch Meithrin in the same ward-something I could never have imagined when I moved here 27 years ago. The fact that the city has a Welsh champion who is presenting his report in Welsh to Cabinet is clear evidence of the progress being made under this administration-some would even say historic.*

*I am thankful to the Leader for the opportunity and also for her own efforts and that of this administration in promoting the Welsh language, culture and heritage and this is evident throughout this report.*

Penderfyniad:
Cymeradwyodd y Cabinet yr adroddiad i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn unol â'r terfynau amser statudol.

7 **Cronfa Adnewyddu Cymunedol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet, gan dynnu sylw at gynnydd y Cyngor ar dynnu rhestr fer o brosiectau am Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau Llywodraeth Leol erbyn 18 Mehefin.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y llywodraeth Geidwadol yn eu cyllideb y buasent yn lansio Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU, sef rhagflaenydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn 2022 ac a fyddai'n cymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr UE, y manteisiodd Casnewydd a De Ddwyrain Cymru arnynt yn y gorffennol.

Yr oedd hyn oll yn rhan o agenda 'Codi'r Gwastad' Llywodraeth y DU, oedd yn cynnwys cronfa Codi'r Gwastad a gyflwynwyd hefyd i'r Cabinet.

Pwrpas y Gronfa Adnewyddu oedd cefnogi cymunedau lleol a'r economi gan ganoli ar bedair thema:
1. Buddsoddi mewn sgiliau;
2. Buddsoddi i fusnesau lleol
3. Buddsoddi mewn cymunedau a lle
4. Cefnogi pobl i mewn i waith

Yr oedd pwyslais hefyd ar i ymgeiswyr ddangos sut y byddai eu prosiectau yn cefnogi dad-garboneiddio a'r agenda newid hinsawdd.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai 100 lle (awdurdodau lleol) ledled y DU yn cael blaenoriaeth i fynd at y Gronfa ar sail eu mynegai gwytnwch economaidd.

Yn anffodus, nid oedd Casnewydd wedi ei nodi fel ardal flaenoriaeth, ond gallai ddal i gyflwyno rhestr fer o geisiadau i'r Gronfa.

Gallai pob awdurdod lleol gyflwyno unrhyw nifer o geisiadau hyd at £3 miliwn o werth.

Gallai sefydliadau o'r sectorau preifat a chyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, elusennau, sefydliadau nid-am-elw ac addysgol wneud cais trwy wahoddiad agored.

Ym mis Ebrill, lansiodd Cyngor Casnewydd wahoddiad i sefydliadau gyflwyno eu ceisiadau erbyn 21 Mai trwy eu gwefan.

Gofynnwyd i ymgeiswyr nid yn unig ddangos sut y buasent yn cefnogi'r pedair thema a nodwyd ym mhrosbectws Llywodraeth y DU, ond hefyd sut y buasent yn cefnogi blaenoriaethau Casnewydd oedd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Casnewydd yn Un), Cynllun Corfforaethol y Cyngor, Nodau Adfer Covid y Cyngor, a blaenoriaethau strategol eraill fel newid hinsawdd.

Ar waethaf yr amserlen fer a osodwyd gan Lywodraeth y DU i awdurdodau lleol sefydlu a gwahodd sefydliadau i ymgeisio, ac i sefydliadau gyflwyno eu ceisiadau, derbyniwyd 11 cais gwerth cyfanswm o £3.4miliwn.

Yr oedd y ceisiadau gan y sefydliadau oll o ansawdd uchel a gallant yn hawdd gefnogi blaenoriaethau strategol dinas Casnewydd.

Yr wyf i fel Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda'r Cynghorydd Hughes (Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy), Beverly Owen (Prif Weithredwr) a chynrychiolwyr partneriaid o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi asesu'r ceisiadau. Yr oedd y sgoriau ar gyfer rhoi ar y rhestr fer yn seiliedig ar feini prawf ateb y blaenoriaethau strategol cenedlaethol a lleol, y gwerth cymdeithasol a'r deilliannau fyddai o les i gymunedau ac economi Casnewydd, a sicrhau bod y prosiectau yn cynnwys cymunedau a grwpiau o bob cwr o Gasnewydd.

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gadarnhau fod y Panel Asesu wedi pennu bod y ceisiadau isod yn llwyddiannus ac y dylid eu cyflwyno i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau Llywodraeth Leol:

- Business in Focus
- Ffilm Cymru
- Tros Gynnal Plant (TGP )
- Pobl
- Maendy Diderfyn
- Casnewydd Nawr
- Prifysgol De Cymru (PDC)
- Volunteering Matters

*Datganodd y Cynghorydd Rahman ddiddordeb fel un o Ymddiriedolwyr Maendy Diderfyn ac ni chymerodd ran yn y penderfyniad.*

Ar ran y Panel, yr oedd yr holl sefydliadau wedi gwneud ceisiadau y gallesid bod wedi eu cyflwyno i Lywodraeth y DU ac yr oedd y broses o dynnu rhestr fer yn heriol a thrylwyr.

Yn anffodus, nid oedd hyn yn gwarantu y byddai'r ceisiadau a gyflwynir gan y Cyngor yn llwyddo i gael arian Llywodraeth y DU a bydd yn rhaid i ni oll aros tan fis Gorffennaf i glywed canlyniad y broses werthuso.

Boed y sefydliadau yn llwyddiannus neu beidio, a hefyd i'r sefydliadau hynny nad oedd ar y rhestr fer, diolchodd yr Arweinydd iddynt am gymryd amser i gyflwyno eu ceisiadau. Yr oedd am annog yr holl sefydliadau i ddal ati i gyflawni eu cynigion ar gyfer Casnewydd gan y byddant oll yn cael effaith ar wella bywydau pobl.

Anogodd yr Arweinydd hwy hefyd i geisio cyfleoedd eraill am grantiau oedd yn cael eu cynnig gan Lywodraeth Cymru a chyrff Cymreig eraill, a allai eu helpu i gyrraedd y nod.

I gloi, byddai'r Cabinet a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael gwybod canlyniad y broses werthuso gan Lywodraeth y DU a phan fyddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei lansio y flwyddyn nesaf, byddai Casnewydd eto am gefnogi sefydliadau i gyrchu'r cyllid.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

O ran Volunteering Matters, pwysleisiodd y Cynghorydd Mayer bwysigrwydd helpu'r rhai mwyaf bregus, a chyfeiriodd at hysbyseb yr hwb cymunedol yn gofyn am gefnogaeth, yn ogystal â helpu'r mwyaf bregus i chwilio am swyddi.

Soniodd y Cynghorydd Hughes hefyd am yr effaith gadarnhaol y byddai'r cyllid yn gael ar y ddinas petai'r bid yn llwyddiannus.

Ategodd y Cynghorydd Harvey sylwadau'r Cynghorydd Mayer, gan sicrhau'r trigolion y byddai Cyngor Dinas Casnewydd yn cefnogi'r bobl fwyaf bregus.

Adleisiodd y Cynghorydd Cockeram hefyd sylwadau ei gydweithwyr yn y Cabinet.

Penderfyniad:
Cefnogodd y Cabinet gynnydd y gwaith oedd yn cael ei wneud gan Gyngor Casnewydd a byddid yn cyflwyno'r ceisiadau ar y rhestr fer i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau Llywodraeth Leol.

8 **Cronfa Lefelu i Fyny**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ddweud y byddai'r Cabinet yn ymwybodol fod Llywodraeth y DU wedi lansio Cronfa Codi'r Gwastad gwerth £4.8 biliwn, gyda'r nod o godi'r gwastad mewn cymunedau ledled y DU. Proses fidio0 gystadleuol oedd hon ac yr oedd hyd at £20m o arian cyfalaf ar gael ar gyfer prosiectau adfywio a diwylliannol. Gallai terfynau cyllido uwch fod yn gymwys i gynlluniau trafnidiaeth, ond yn ystod y rownd fidio gyfredol, yr oedd y ffocws at gynllun adfywio.

Nodwyd Casnewydd fel ardal Blaenoriaeth 1, ac er bod hyn yn fantais o ran hierarchaeth anghenion, yr oedd hon yn broses gystadleuol a byddai arian yn cael ei roi yn ôl ansawdd y bid, yn hytrach na statws blaenoriaeth.

Rhaid i fidiau gael cefnogaeth AS yr etholaeth, a rhaid gwario'r holl arian erbyn 2025. Bydd nifer o rowndiau bidio, ond y terfyn amser i gyflwyno bidiau y rownd gyntaf oedd 18 Mehefin. Gofynnwyd i'r Cabinet felly gefnogi cyflwyno bid am arian i ardal a nodwyd fel Porth y Gogledd ym Mhrif Gynllun Canol y Ddinas.

Yr oedd yr adroddiad yn cynnwys detholiad o gynllun o'r Prif Gynllun a fabwysiadwyd, ac yr oedd Porth y Gogledd yn cwmpasu'r adran o gwmpas gorsaf ganolog Casnewydd ac yn ymestyn at y Stryd Fawr, Stryd y Bont, Stryd y Doc Uchaf, a hen safle Sainsbury's.

Yr oedd nifer o brosiectau adfywio sylweddol wrthi neu ar y gweill yn ardal Porth y Gogledd. Yr oeddent yn cynnwys adnewyddu'r Farchnad Dan Do ac Arcêd y Farchnad, y cynlluniau cyffrous am egin-hwb yn yr Orsaf Wybodaeth, swyddfeydd newydd sbon ar hen safle IAC ar Stryd y Felin a phont droed teithio llesol newydd fydd yn cysylltu Devon Place a Queensway.

Fel prif orsaf reilffordd yn rhoi mynediad uniongyrchol i Gaerdydd, Bryste, Llundain a thu hwnt, Gorsaf Ganolog Casnewydd yw ein porth allweddol i ganol y ddinas.

Fodd bynnag, nid oedd cyfleoedd buddsoddi a'r adeiladau cyhoeddus yn yr ardal hon yr hyn y buasech yn ddisgwyl wrth gyrraedd y ddinas. Nid oedd yn rhoi i'r trigolion na'r ymwelwyr ymdeimlad o gyrraedd ac nid yw'n cyfeirio pobl i ganol y ddinas lle gallant fynd at ein busnesau, ein cyfleusterau hamdden a lletygarwch. Yr ydym am i bobl deimlo'n gadarnhaol ac wedi eu bywiogi gan yr amgylchedd lleol yn yr ardal hon, ac am i fuddsoddwyr weld yr hyn sydd gan Gasnewydd i'w gynnig.

Yr oedd argraffiadau'r artist yn yr adroddiad yn dangos yr hyn sydd yn bosib, gan gyflwyno seilwaith gwyrdd y mae mawr ei angen i ardal sydd ar hyn o bryd â llawer o arwynebedd caled. Yr oedd hyn yn gyfle hefyd i ategu mentrau teithio llesol ac i gyflwyno ein hymrwymiad a osodir allan yng Nghynnig Casnewydd, oedd yn ffurfio rhan o'r Cynllun Lles a hefyd Siarter Creu Lle Cymru.

Ategodd yr Arweinydd mai proses gystadleuol oedd hon ac nad oedd gwarant o lwyddiant; fe allem gyflwyno bidiau yn y rowndiau nesaf. Yr oedd yr Arweinydd yn sicr y cytunai'r Cabinet fod angen mynd ar ôl pob cyfle am grantiau er mwyn cyflawni ein cynlluniau adfywio uchelgeisiol i ganol y ddinas. Dylai'r porth i ganol y ddinas o'r orsaf reilffordd fod yn addas at y diben ac adlewyrchu'r hyn yr oeddem yn ceisio ei gyflawni i'n holl ymwelwyr a'n trigolion. Gofynnodd yr Arweinydd felly i'r Cabinet gefnogi cyflwyno'r bid hwn am y rownd gyntaf.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Soniodd y Cynghorydd Jeavons fod dros 20km o lwybrau teithio llesol wedi eu gwella ledled y ddinas, megis Devon Place a rhannau o'r gamlas. Yr oedd hwn yn gyfle gwych i'r cyngor, ac fe'i cefnogwyd yn llawn gan y Dirprwy Arweinydd.

Ategodd y Cynghorydd Harvey sylwadau'r Cynghorydd Jeavons.

Ychwanegodd y Cynghorydd Truman y byddai hyn yn gyfle da i Gasnewydd, ac yr oedd yn teimlo fel darn mawr o'r jig-so i helpu i wella'r ddinas.

Sylwodd y Cynghorydd Cockeram mai Casnewydd oedd y porth i Gymru a bod hwn yn gyfle gwch i helpu i hyrwyddo'r ddinas.

<u>Penderfyniad:</u>
Fod y Cabinet yn cymeradwyo bid Codi'r Gwastad am ardal y Porth Gogleddol yng nghanol y ddinas.

## 9 Adroddiad Diweddaru ar Adferiad Covid-19

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan roi cyfoesiad ar ymateb y Cyngor a'i bartneriaid i argyfwng Covid-19 a chefnogi'r ddinas (trigolion a busnesau) i gydymffurfio â'r cyfyngiadau presennol ac i fwrw ymlaen â Nodau Adfer Strategol y Cyngor a'r Cynllun Corfforaethol.

Ers i'r Cabinet hwn gyfarfod ddiwethaf ym Mai, bu gostyngiadau pellach yn yr achosion o Covid-19, ac y mae hyn wedi galluogi llacio'r cyfyngiadau clo, fel bod cyrchfannau lletygarwch dan do yng Nghasnewydd wedi ail-agor.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru hefyd roi prawf ar ddigwyddiadau dan do ac awyr agored ledled Cymru. Yng Nghasnewydd, gallodd dilynwyr tîm peldroed Casnewydd wylio dwy gêm, tra cynhaliodd Gwesty'r Celtic Manor ddigwyddiad busnes i 100 o wahoddedigion.

Er bod hyn i'w groesawu, mae angen i drigolion Casnewydd barhau yn wyliadwrus a gofalus.

Dros yr wythnosau diwethaf, cynyddodd achosion o amrywiolyn Indiaidd Covid-19 ar draws y DU, a gwelodd Casnewydd glystyrau bychain o achosion. Er bod cyfradd yr achosion yn is o lawer nag y buont yn gynharach yn y flwyddyn, bydd yn rhaid i ni oll ddysgu byw gyda'r firws hwn, a thra bod cyfyngiadau yn dal ar waith, rhaid sicrhau ein bod yn cadw at y canllawiau o ran cadw pellter cymdeithasol.

Dylai trigolion Casnewydd sy'n tybio fod ganddynt symptomau Covid-19 gymryd prawf a hunan-ynysu yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Parhaodd y rhaglen frechu yng Nghasnewydd a Chymru i fod yn llwyddiannus, a derbyniodd dros 2 filiwn o bobl eu dos gyntaf, gyda thros 900,000 yn derbyn eu hail frechiad.

Rhaid canmol gwaith Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Casnewydd Fyw, y Cyngor hwn ac eraill am eu holl waith caled yn ein hamddiffyn ni i gyd ar hyd a lled Casnewydd, ac nid oedd amheuaeth fod hyn yn cael effaith ar ledaeniad y firws.

Yr oedd y rhaglen frechu yn awr yn cyrraedd poblogaeth 18 i 30 oed Casnewydd, ac yr oedd yr un mor bwysig i'r grŵp oedran hwn a'n grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig gymryd y brechiad.

Os oedd gan unrhyw un amheuon neu bryderon am y brechiad, dylent gael gair â'u meddyg teulu neu fynd at wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael cyngor.

Fis diwethaf, dathlodd cymuned Foslemaidd Casnewydd ddiwedd Ramadan a dathlu Eid al-Fitr. Yr oedd yn bleser gweld y gymuned yn dathlu Eid yn ddiogel gyda theuluoedd a chyfeillion.

Yr oedd gwasanaethau a staff Cyngor yn dal i roi gwasanaeth i drigolion a busnesau ar draws Casnewydd, boed hyn ar y rheng flaen mewn cartrefi preswyl, yn ymweld â chleientiaid, casglu gwastraff, dysgu neu weithio o gartref neu mewn swyddfa.

Bu swyddogion a phartneriaid strategol y Cyngor yn dwys ystyried sut y gallai staff a gwasanaethau ddychwelyd yn ddiogel a gweithio mewn modd mwy hyblyg er mwyn i ni adeiladu ar y newidiadau a ddigwyddodd yn ystod yr argyfwng.

Fis nesaf, bydd y Cabinet yn derbyn adroddiad fyddai'n amlinellu agwedd y Cyngor at y dyfodol ac yn manteisio ar gyfleoedd i barhau i wella ein gwasanaethau.

Dros y mis diwethaf, cyflwynodd y Cyngor yr isod:

- Parhau i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant digidol i blant ac oedolion yr effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng.
- Dechrau datblygu Strategaeth Ddigidol newydd i gymunedau Casnewydd a'r Cyngor
- Cyflwyno ceisiadau Cronfa Adnewyddu Cymunedol i gefnogi cyfleoedd gwaith a hyfforddiant newydd i gymunedau.
- Grantiau gwerth cyfanswm o £1.64m i gynorthwyo 820 o fusnesau a phobl hunangyflogedig yng Nghasnewydd.

- Parhau i weithio i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol i Gasnewydd fyddai'n cefnogi dad-garboneiddio anghenion pŵer, gwres a thrafnidiaeth Casnewydd at y dyfodol.
- Yr oedd gwasanaethau oedolion yn ystyried addasu'r trefniadau gwasanaeth i ddychwelyd at wasanaethau dydd.
- Ail-ddechreuodd Casnewydd Fyw wasanaethau Hamdden a chyflwyno gweithgareddau ymarfer corff awyr-agored.
- Bydd Cyngor Casnewydd yn gwneud mwy o waith ymwneud trwy'r Panel Dinasyddion a wifi ar fysus.

Dyna derfyn yr adroddiad, a bydd mwy o gyfoesiadau am gynnydd y Cyngor yn cael ei roi fis nesaf.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

Dywedodd y Cynghorydd Cockeram y gallai arian i gartrefi gofal yn y sector preifat redeg allan, oedd yn achos pryder. Cytunodd yr Arweinydd fod hyn yn bwnc pwysig, a chanmolodd hefyd dîm Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor oedd yn gwneud yn siŵr nad effeithiwyd yn andwyol ar yr henoed.

Ategodd y Cynghorydd Truman sylwadau'r Arweinydd a thalu teyrnged i Lywodraeth Cymru am eu rhaglen frechu.

Diolchodd y Cynghorydd Harvey i'r holl staff am eu gwaith caled, yn ogystal â gwaith caled staff Casnewydd Fyw.

Diolchodd y Cynghorydd Hughes hefyd i'r staff a'r gwirfoddolwyr oedd yn helpu pobl fregus.

Diolchodd y Prif Weithredwr i bawb yn y cyngor am eu cefnogaeth, gan grybwyll y timau Iechyd Amgylchedd a Phrofi ac Olrhain. Pwysleisiodd nad oedd y perygl drosodd o bell ffordd, ac anogodd y trigolion i helpu i reoli a chyfyngu ar y firws ledled y byd.

Hefyd, soniodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad ar Godi'r Gwastad yn adlewyrchiad o ymdrech a gwaith timau o bob cwr o'r cyngor.

Penderfyniad:
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r risgiau yr oedd y Cyngor yn dal i'w hwynebu.

10 **Adroddiad Diweddaru Brexit**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan roi'r diweddaraf i gydweithwyr am gynnydd yn y trefniadau wedi Brexit / masnach ers 31 Rhagfyr 2020.

Ers yr adroddiad diwethaf i'r Cabinet ym mis Mai, parhaodd Cyngor Casnewydd i roi cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd i fusnesau a thrigolion yr UE.

Mae Cyngor Casnewydd a'u partneriaid yn dal i gefnogi trigolion sy'n byw yng Nghasnewydd gyda chynllun Statws Sefydlu yr UE cyn y terfyn amser ar 30 Mehefin.

Lansiodd y Cyngor ymgyrch newydd wedi ei anelu at holl gymunedau'r UE yn y ddinas, i gyfeirio pobl at yr holl help a'r gefnogaeth angenrheidiol a roddir gan y Cyngor a'u partneriaid.

Dylai unrhyw un sydd heb wneud hynny ymgeisio, ac annog eu cyfeillion a'u teuluoedd i wneud yr un peth.

Yr oedd y Cyngor yn cynnig cymorth a chyngor i bawb oedd a phryderon a/neu angen mwy o help i ymgeisio.

Penderfyniad:
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a nodi ymateb y Cyngor i Brexit.

11 **Rhaglen Waith**

Tynnodd yr Arweinydd sylw at yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith a gofyn i'r Cabinet dderbyn y rhaglen a gyfoeswyd.